# <u>Cyngor Cymuned Llandochau yn Gwasanaethu Cymuned Llandochau</u>








## Crynodeb Gweithredol

- Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn ystyried uno Cymuned Llandochau â ward Cornerswell ym Mhenarth oherwydd "tangynrychiolaeth" bresennol yr etholwyr yn Llandochau.

- Bydd yr adroddiad hwn yn dangos bod Cymuned Llandochau ar wahân, gyda ffiniau penodol (**gweler Atodiad 1**), ac mae'n endid bywiog heb unrhyw synergeddau posibl â Cornerswell.

- Bydd yr adroddiad yn dangos bod y CDLl yn ystyried ehangu Cymuned Llandochau gan 300 o anheddau, sy'n golygu y bydd yn bodloni gofyniad Bro Morgannwg am gynrychiolaeth gan un cynghorydd.

- Mae Cyngor Cymuned Llandochau yn gweithio law yn llaw â chynghorydd lleol Bro Morgannwg, gan wasanaethu ei gymuned trwy drefnu a chynnig rhestr eang ac amrywiol iawn o weithgareddau a fydd yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.

- Mae Cyngor Cymuned Llandochau wedi derbyn dau grant sydd wedi ei alluogi i adeiladu Ardal Gemau Amlddefnyddiwr (MUGA) i wasanaethu pobl ifanc y pentref. Mae'r cyfleuster hwn (a alwyd amdano yn Arolwg Ymgysylltu'r Cyngor gyda'r pentref) yn cynnig ardal i chwarae amrywiaeth o gemau a fydd yn helpu o ran gweithgareddau corfforol hanfodol. Mae'r arolwg a'r MUGA wedi ennill gwobrau diweddar gan Un Llais Cymru.

- Mae gan Landochau hanes cyfoethog ac amrywiol sy'n dyddio'n ôl i gyfnod y Rhufeiniaid.

- Mae cysylltiadau cryf rhwng Cyngor Cymuned Llandochau a'n hysgol leol ac mae'n helpu mewn sawl gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys taith gerdded flynyddol y Gweddïau, dosbarthiadau i weld y byd natur o fewn ffiniau Llandochau, ac ariannu Noson Tân Gwyllt hynod lwyddiannus ym mis Tachwedd sy’n cynhyrchu arian ar gyfer y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

- Ynghyd â'n Cylchlythyrau rheolaidd a'n Llawlyfr Cymunedol Blynyddol, mae ein gwefan (www.llandough-cc.co.uk) yn dangos ehangder y gweithgareddau yn ogystal â chynnig llwybrau ar gyfer teithiau cerdded lleol, gwasanaethau a gynigir, cysylltiadau a llawer o ddolenni defnyddiol eraill ar gyfer ein cymuned.

- Bydd y crynodeb terfynol yn dangos pam na ddylid uno ward Cymuned Llandochau â Ward Cornerswell ym Mhenarth.

**Diwygio Etholiadol Bro Morgannwg**

**Cefndir:**

***Polisi***

- Mae'r Comisiwn yn cynnig newid i drefniadaeth wardiau etholiadol a fydd yn gwella'n sylweddol lefel cydraddoldeb etholiadol ar draws Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.
- Mae'r Comisiwn yn cynnig cyngor o 53 o aelodau, sef cynnydd o'r nifer presennol o 47. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol arfaethedig o 1,809 o etholwyr fesul aelod.
- Mae'r Comisiwn yn cynnig 23 o wardiau etholiadol.
- Y tangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) o fewn y cynigion yw Plymouth (23% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, yn y Rhws mae'r tangynrychiolaeth fwyaf (50% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig).
- Y gor-gynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) o fewn y cynigion yw Sain Tathan (26% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r gor-gynrychiolaeth fwyaf yn Llandochau (27% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig).
- Mae'r Comisiwn yn cynnig 19 o wardiau aml-aelod yn y sir sy'n cynnwys: deg ward etholiadol dau aelod; saith ward etholiadol tri aelod; a, dwy ward etholiadol pedwar aelod.
- Mae'r Comisiwn wedi cynnig cadw deg ward etholiadol.
- Mae'r Comisiwn yn cynnig cael un ward etholiadol (Cornerswell a Llandochau) o fewn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned wardiog, ynghyd â'i chymuned gyfagos.

***Cyfiawnhad***

- Y niferoedd a ddangosir fel yr etholaeth yn 2019 a'r amcangyfrifon ar gyfer yr etholaeth yn 2024 yw'r rheiny a gyflwynwyd gan Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae'r ffigyrau rhagolygol sy'n cael eu cyflenwi gan Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn dangos cynnydd rhagolygol yn etholaeth Bro Morgannwg o 95,865 i 110,768. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) hefyd wedi darparu eu nifer amcangyfrifedig o bobl sy'n gymwys i bleidleisio ond sydd ddim ar y gofrestr etholiadol. Roedd hyn yn dangos amcangyfrif o 7,581 yn llai o bobl yn gymwys i bleidleisio nag etholaeth 2019.
- Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn deddfu i ymestyn yr etholfraint i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor, nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd, yn etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae Polisi Meintiau Cynghorau y Comisiwn yn defnyddio'r boblogaeth gyfan i bennu Meintiau Cynghorau a chafodd y ddau grŵp hyn eu cynnwys yn y trafodaethau am Feintiau Cynghorau.
- Er nad yw pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y ffigyrau etholiadol presennol a ddarperir gan Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, fe fyddan nhw wedi cael eu cynnwys yn y ffigyrau rhagolygol a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae'r ffigyrau hyn wedi cael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r Comisiwn ar ei argymhellion.
- Cynhwysir gwladolion tramor yn nata'r cyfrifiad a ddarperir gan yr SYG. Mae ystyriaeth o’r data hyn wedi cael ei chynnwys fel rhan o drafodaethau'r Comisiwn ar ei argymhellion.
- O ran nifer yr etholwyr fesul cynghorydd ym mhob ward etholiadol, mae amrywiad eang o’r cyfartaledd sirol presennol o 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd, yn amrywio o 27% yn is (1,490 o etholwyr - Llandochau) i 50% yn uwch (6,111 o etholwyr - Y Rhws). Mae penderfyniad i gael cyngor sy’n cynnwys 53 aelod (gweler paragraff 2) yn arwain at gyfartaledd o 1,809 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd.

## Etholwyr presennol ac arfaethedig yn Llandochau

***Presennol***

| Enw | Disgrifiad | Nifer y cynghorwyr | Etholaeth 2019 | Cymhareb 2019 | % yr amrywiaeth o'r cyfartaledd sirol arfaethedig | Etholaeth 2024 | Cymhareb 2024 | % yr amrywiad o'r cyfartaledd sirol arfaethedig | Poblogaeth yn gymwys i bleidleisio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandochau | Cymuned Llandochau | 1 | 1,490 | 1,490 | -27% | 1,681 | 1,681 | -29% | 1,513 |

***Arfaethedig***

| Enw | Disgrifiad | Nifer y cynghorwyr | Etholaeth 2019 | Cymhareb 2019 | % yr amrywiaeth o'r cyfartaledd sirol arfaethedig | Etholaeth 2024 | Cymhareb 2024 | % yr amrywiad o'r cyfartaledd sirol arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cornerswell a Llandochau | Ward Cornerswell o Dref Penarth a Chymuned Llandochau | 3 | 5,455 [1,490 + 3,965] | 1,818 | 1% | 6,090 | 2,303 | -3% |

**<u>Cynllun Datblygu Lleol</u>**

**CDLl – diweddarwyd Mehefin 2017**
Gweler:
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/LDP/LDP-Adoption/Adopted-LDP-Written-Statement-June-2017-final-interactive-web-version.pdf

**Tudalen 183**
MG2 (32) Tir i'r de o Llandough Hill / Penarth Road – **<u>130 annedd</u>**

- Mae'r safle 5.23-hectar maes glas hwn rhwng Ffordd Penarth i'r dwyrain a Cogan Pill Road i'r gorllewin. Mae topograffi'r safle yn amrywio'n sylweddol, ac mae rhan ddeheuol y safle yn cynnwys hen gronfa ddŵr sy'n cael ei hystyried yn safle tir llwyd. Mae wal gynhaliol fawr yn cynnal y gronfa ddŵr ger Ffordd Penarth a bydd angen arolwg strwythurol i bennu cyflwr presennol y wal hon. Bydd gofyn i'r datblygiad gyfrannu tuag at ddarparu a/neu wella llwybrau cerdded a beicio rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys darparu cysylltiadau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Cyflwynir tai fforddiadwy yn unol â Pholisi MG4.

**Tudalen 184**
MG2 (33) Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd – **<u>8 annedd, ond bellach rydym ni'n gwybod bod 50</u>**

- Mae'r safle 0.6-hectar wedi'i leoli ar ymyl gogledd-orllewinol Llandochau wrth ymyl Heol Lecwydd. Mae'r safle mewn lle amlwg ar gefnen uwchben hen chwarel sy'n ffinio gydag ardal o goetir i'r gorllewin. Cymeradwyodd y Cyngor gais cynllunio amlinellol (cais 2014/01401/OUT refers) ar gyfer 21 annedd ar dir i'r gogledd ac i'r de o Heol Lecwydd sy'n cynnwys y dyraniad ym mis Hydref 2015 yn amodol ar lofnodi cytundeb S106. Bydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn unol â Pholisi MG4.

**Tudalen 185**
MG2 (34) Glaniadau Llandochau – **<u>120 annedd</u>**

- Mae'r safle 6-hectar hwn rhwng prif reilffordd Bro Morgannwg ac Afon Elái. Mae mynediad i'r safle yn debygol o fod o Anchor Way. Bydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn unol â Pholisi MG4.

**I gyrraedd cyfartaledd sirol**

- Mae angen ei gynyddu o 1490 i 1809 = **<u>319</u>**
  - Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd – 50 annedd
  - Tir i'r de o Llandough Hill / Ffordd Penarth – 130 annedd
  - Glaniadau Llandochau– 120 annedd
- Rhai ychwanegol o MG 2 (32), MG2 (33) a MG2 (34) = **<u>300</u>**


**<u>Casgliad</u>**

- **Gyda'r CDLl, byddwn yn cyflawni nifer dymunol o etholwyr heb gyfrif y bobl ifanc 16 ac 17 oed neu o bosibl mwy na dau bleidleiswyr cymwys o bob cartref**

## <u>Cyngor Cymuned Llandochau – Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud</u>

- Mae ffiniau penodol ym mhob mynedfa i'r gymuned. Dim ond tair ffordd sydd i mewn i Landochau – mae'n endid ar wahân heb unrhyw gysylltiadau ag unrhyw ward arall (**gweler Atodiad 1**)
- Datblygiad ein gwefan ein hunain: http://www.llandough-cc.co.uk/
- Mae'n cynyddu bioamrywiaeth yn y pentref trwy blannu blodau gwyllt a bylbiau ac yn ddiweddar dyfarnwyd "Gardd Bywyd Gwyllt" iddynt, ynghyd â'r Cyngor yn gofalu am asedau fel Maes y Pentref, Gardd y Pentref a Brook Green.





- Rydym wedi cynnal arolwg ymgysylltu â'r Gymuned - rydym yn gwybod beth hoffai ein hetholwr.
- Rydym yn trefnu Ffair Bentref flynyddol hynod lwyddiannus sy'n darparu cyllid i sefydliadau lleol.

[redacted]

[redacted]

- Rydym wedi ennill tair Gwobr Un Llais Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf
    - **2018 - Prosiect Gorau Ymgysylltu â'r Gymuned** (mae'r arolwg ar gael ar ein gwefan: http://www.llandough-cc.co.uk/Community_Engagement_20133.aspx)

[redacted]

    - **2019 - Gwobr cyngor cymuned gorau**
    - **2020 - Tystysgrif o dan Wasanaeth Cyngor Lleol Gorau'r Flwyddyn**

- **Eraill**
  - Mae'r Cyngor wedi rhoi grantiau i nifer o sefydliadau. Er enghraifft, fe wnaeth y Gwasanaeth Dinesig yn 2019 goffáu sefydlu’r Cyngorydd Pam Gay fel y Cadeirydd, a oedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn gydag elw o'r casgliad yn cael ei roi i Gronfa Ambiwlans Awyr Cymru.
  - Mae Pwyllgor Rheoli'r Neuadd wedi cyflwyno cais am grant i gynllun Gwobrau'r Loteri Fawr i Bawb i gyflenwi a gosod diffibriliwr ar wal allanol y Neuadd.





  - Mae cynghorwyr yn archwilio cyflwr y pentref yn rheolaidd, a phan amlygir unrhyw broblemau, maent naill ai'n cael sylw gan y Cyngor neu’n cael eu cyfeirio at Gyngor Bro Morgannwg i weithredu arnynt.
  - Cwblhawyd y Llawlyfr Cymunedol a'i ddanfon i bob cartref yn Llandochau.
  - Mae'r Cyngor yn parhau i annog yr Ysbyty a Chyngor Bro Morgannwg i weithredu i leihau nifer yr achosion o staff ac ymwelwyr yn parcio ar ffyrdd preswyl.
  - Mae'r Cyngor wedi gwneud awgrymiadau i Gyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â dyfodol y tir gwag oddi ar Heol Lewis oedd yn arfer cartrefu garejis.
  - Mae'r Cyngor wedi gwahodd Pwyllgor Neuadd y Sgowtiaid a Geidiaid i ddechrau sgwrsio am ariannu gwelliannau i adeilad y Neuadd.
  - Mae'r Cyngor wedi gofyn i Gyngor Bro Morgannwg dynnu'r ffens o amgylch y cwrt tennis segur yn y caeau chwarae er mwyn ei alluogi i’w ddatblygu fel safle bio-amrywiaeth lleol.
  - Mae'r Cyngor yn ymateb i geisiadau cynllunio a newid defnydd, ac yn mynychu gwrandawiadau perthnasol yn ôl yr angen.
  - Prynodd y Cyngor fyrddau picnic i'w defnyddio yn rhandiroedd Heol Corbett a fydd yn darparu cyfleuster a groesawir yn fawr gan denantiaid y rhandiroedd.
  - Trefnu adegau Casglu Sbwriel drwy gydol y flwyddyn.

[redacted]

- **Cynghorydd Ward**
    - Mae'r Cynghorydd Ward yn mynychu holl gyfarfodydd a digwyddiadau'r Cyngor gan ddangos ymrwymiad llawn i anghenion Cymuned Llandochau.

- **Ysgol Llandochau**
    - Mae'r cyngor yn gweithio law yn llaw â'n hysgol leol i drefnu
        - Y Noson Tân Gwyllt Flynyddol ym mis Tachwedd
        - Taith Gerdded Flynyddol y Gweddïau ym mis Mai
        - Bore Coffi'r Nadolig ym mis Rhagfyr

- **Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol**
        - Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun trafnidiaeth gymunedol er budd trigolion lleol sy’n dymuno ymweld ag archfarchnadoedd lleol. Mae'r gwasanaeth ar gael ar foreau Iau a dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyrchu'r gwasanaeth gysylltu â Chlerc y Cyngor. Cysylltwch â Chlerc y Cyngor i glywed gan unrhyw un fyddai'n elwa o gymryd rhan yn y cynllun. Yn ogystal â rhoi mynediad i'r archfarchnadoedd, mae'n gyfle i'r rheiny sy’n rhan o'r cynllun wneud ffrindiau newydd.



- **Blodau Gwyllt yn y Gymuned**
    - Mae arddangosfeydd blodau gwyllt ar faes y pentref, gardd y pentref ac yn y caeau chwarae sy'n helpu i wella amgylchedd y gymuned. Mae gan y Cyngor Weithgor Bioamrywiaeth sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r bwriad o ddatblygu camau sy'n gwella bioamrywiaeth ein cymuned. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi trefnu i blannu bylbiau a hadau blodau gwyllt ac mae hefyd wedi trefnu bod bocsys adar yn cael eu gosod ar goed yn y gymuned yn ogystal ag ar safle'r rhandiroedd yn Heol Corbett. Ein gobaith yw y bydd y gymuned yn cefnogi gweithredoedd y Cyngor a fydd yn rhan o'i gynlluniau parhaus i wella amgylchedd ein cymuned a chynorthwyo mewn ffordd fach ond pwysig i Strategaeth newid hinsawdd Llywodraeth Cymru.




- **Rhandiroedd**
  - Daeth rhandiroedd yn ffasiynol yn ystod ac ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, a heddiw, mae galw mawr amdanynt o hyd ar gyfer cynnyrch bwyd lleol, ymarfer corff a meithrin cyfeillgarwch newydd. Mae ein cyngor cymuned yn gweithredu safle rhandiroedd mawr oddi ar Heol Corbett.
  - Mae gan y Cyngor safle rhandiroedd wrth gefn hefyd, sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.




- **Safle Cyfryngau Cymdeithasol Nextdoor Llandochau**
  - Ar hyn o bryd, mae tua 488 o drigolion yn Llandochau wedi cofrestru allan o gyfanswm o 3857 o ardal sy'n cynnwys De Caerdydd, Penarth Isaf a Dinas Powys, i'r safle cymharol newydd hwn sy'n rhoi cyfle i bob un ohonom gadw

mewn cysylltiad, rhannu straeon newyddion a gofyn am gyngor oddi wrth ein gilydd. Mae'n ffordd wych o gadw mewn cysylltiad ♪1 chymdogion a ffrindiau a gyda'ch Cyngor Cymuned – dyma'r ddolen gwe https://nextdoor.co.uk/neighborhood_feed/. Ceir newyddion a sgyrsiau lleol eraill mewn dau grŵp Facebook ar wahân, sef Llandough Community News a Llandough Old and New Residents.

- **Man Chwarae Amlddefnydd**
  - Mae'r cyngor wedi sicrhau cyllid o £90,000 i adeiladu Man Chwarae Amlddefnydd yng Nghaeau Chwarae Brenin Siôr V.
  - Daeth y cyllid o:
    - A106, Cynllun Grant Cymunedau Cryf;
    - Chwaraeon Cymru; a
    - Bydd y Cyngor yn cyfrannu £5,500 o arian wrth gefn ond ni fydd deiliaid tai yn profi unrhyw gynnydd yn y praesept a godir gan y Cyngor.
  - Roedd y gefnogaeth sylweddol gan gyllidwyr grant yn deillio o'r ymgysylltu cymunedol effeithiol a gynhaliwyd gan y Cyngor drwy arolwg arobryn yn ogystal â'i ddull ymarferol o ymgysylltu â thrigolion sy'n byw ger safle'r Man Chwarae Amlddefnydd, ac roedd pawb yn gadarnhaol am y datblygiad.
  - Cymerodd Cynghorydd Sir y Ward ddiddordeb gweithredol gyda'r Cyngor drwy gydol y broses gan ddangos y dull partneriaeth y mae'r Cyngor a'i aelod ward ymroddedig yn ei fabwysiadu ym mhob dull ac ymagwedd a gynlluniwyd i wella lles cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymuned glos.
  - Mae'n gweithio'n dda a byddai'r newid arfaethedig i ffiniau etholiadol Cyngor Bro Morgannwg yn gwneud llawer mwy o niwed na budd.
  - Mae'r Man Chwaraeon Amlddefnydd wrthi'n cael ei adeiladu adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.



- **Ysbyty Llandochau**
  - Dyma'r ail ysbyty fwyaf yng Nghymru ac mae'n cyflwyno ei broblemau ei hun i'r gymuned.



  - Yn enwedig gyda pharcio.



<u>**Rhywfaint o’n Hanes yn Llandochau**</u>

**Eglwys Sant Dochdwy**



1843



2020

- Adeilad o’r 19eg Ganrif yw eglwys bresennol Sant Dochdwy, a ddyluniwyd gan Samuel Charles Fripp o Fryste ac a adeiladwyd gan David Jones o Benarth am gost o £2,600. Fe'i cysegrwyd ym mis Gorffennaf 1866 gan Alfred Ollivant, Esgob Llandaf.
- Codwyd adeilad parhaol cyntaf yr eglwys yn y 12eg Ganrif, ac ar ôl rhywfaint o waith adfer yn y 18ed Ganrif, roedd yn parhau i gael ei ddefnyddio tan 1820. Adeiladwyd eglwys newydd ar y safle ond roedd yr eglwys hon yn rhy fach ar gyfer poblogaeth oedd yn tyfu ac fe'i symudwyd a'i hailadeiladu fel Sant Iago Lecwydd, gan wneud lle i'r Sant Dochdwy presennol.
- Mae'r eglwys bresennol yn cynnwys y bwa cangell Normanaidd, sy'n ffurfio'r fynedfa wrth waelod y tŵr, a phâr o ffenestri gwydr lliw canoloesol sy'n darlunio Sant Pedr a Sant Paul, sydd bellach wedi'u gosod yn y wal orllewinol.
- Mae'r adeilad yn draddodiadol o ran ei arddull ac mae wedi’i wneud o galchfaen gyda tho llechi: mae'r tu mewn wedi ei wneud o waith brics polychromatig ag iddo batrwm beiddgar. Mae gan y tŵr do arddull cyfrwy. Adeiladwyd Sant Dochdwy bron yr un pryd ac yn yr un arddull â Sant Awstin, Penarth, y mae yn debyg iddi mewn sawl ffordd.
- Mae'r eglwys wedi'i chysegru i Sant Dochdwy (fel arall, Docco) y mae sôn amdani ym mywyd Sant Cadog o Lancarfan a bywyd Sant Samson o Dol.
- Nodir Eglwys Sant Dochdwy am Groes Geltaidd Irbic yn ei mynwent, yn dyddio yn ôl i'r 10fed neu'r 11eg ganrif, pan oedd Llandochau yn safle mynachaidd pwysig, ynghyd â Llanilltud Fawr a Llancarfan. Mae'r heneb wedi'i hadeiladu mewn carreg Sutton, ac mae'n cynnwys pedwar bloc wedi'u mowldio, er bod pen y groes ei hun ar goll: gellir gweld un tebyg yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Mae'r cerfiad o batrwm llaesu, ac mae'r sylfaen yn cynnwys cerfiad o farchog, gyda dau wyneb dynol ar yr ochrau. Mae'r garreg yn cynnwys yr arysgrif **IRBICI**, sy'n golygu “[carreg] Irbic", ond ni ŵyr dim am yr unigolyn hwn nac yn union pam y codwyd y groes.

## Bwthyn y Gof

- Yr adeilad a oedd yn fwthyn y gof yw [redacted]. Mae’r bwthyn, sy’n adeilad carreg ag iddo un llawr, yn dyddio o tua 1760 ac yn wreiddiol roedd ganddo do gwellt, sydd bellach wedi cael ei ddisodli gan do teils modern.
- Mae ardal y gegin bresennol yn cynnwys hen ffwrn y gof, ar ffurf cromen frics.




## Yr Ysgol Genedlaethol, [redacted]

- Sefydlwyd Ysgolion Cenedlaethol yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddarparu addysg gynradd i blant tlawd, yn unol â dysgeidiaeth Eglwys Lloegr. Yn y pen draw, daethant yn ysgolion gwirfoddol a gynorth neu wirfoddol a reolir o fewn y system wladwriaethol.
- Yr adeilad carreg ar gornel Heol Penlan a Heol Lewis, sy’n dyddio o 1825, oedd yr Ysgol Genedlaethol gyntaf yn ardal Penarth. Menter y rheithor, y Parch James Evans, oedd hi, a chafodd ei gefnogi gan 2il Farcwis Bute. Bryd hynny, rhyw 200 oedd poblogaeth Llandochau, a’r Gymraeg oedd iaith gyntaf y mwyafrif ohonynt.
- Cafodd adeilad yr ysgol ei adeiladu mewn carreg, gyda tho llechi a ffenestri ag ymyl brics. Y bwriad oedd iddo letya rhwng 50 a 60 o blant. Adeiladwyd tŷ llai [redacted] yn ddiweddarach fel preswylfa i'r athro ysgol. Erbyn 1870, roedd poblogaeth Llandochau wedi cynyddu i dros 700, a disodlwyd yr Hen Ysgol ym 1872 gan adeilad newydd gyferbyn â'r hen ysgol, a gynlluniwyd i ddarparu ar gyfer tua 125 o blant. Bu’r adeilad hwn yn gwasanaethu fel ysgol gynradd hyd at fis Ionawr 1941, pan gafodd ei difrodi'n wael gan fomio.
- Mae'r Hen Ysgol bellach yn dŷ preifat.



**Pound Cottage**

- Arferai Pound Cottage fod yn gartref i geidwad llociau pentref Llandochau, a oedd yn gyfrifol am ddal a chadw anifeiliaid crwydr.
- Roedd y tir yn perthyn i ystâd Bute a chredir bod yr adeilad gwreiddiol yn dyddio o'r 1830au. Cafodd ei adeiladu fel bwthyn gwellt deulawr gyda waliau gwyngalchog: cafodd lloc o gerrig ar gyfer anifeiliaid crwydr a oedd ynghlwm i'r adeilad ei ddymchwel ym 1950.
- Bu amryw newidiadau ac ychwanegiadau, yn enwedig estyniadau un llawr ar bob pen, eto â tho gwellt.
- Bu’r adeilad yn gwasanaethu fel siop losin am rai blynyddoedd. Caiff ei ystyried fel y bwthyn gwellt olaf yn Llandochau.



**Casgliad**

- Mae Llandochau a Cornerswell yn ddwy gymuned wahanol ar wahân sy'n wynebu problemau gwahanol ac unigryw. Byddai'n niweidiol i'r ddwy ward uno o dan un gynrychiolaeth. Maent yn cael eu gwahanu'n ddaearyddol gan brif ffordd ddeuol brysur, ac yn gymunedol drwy wahanol ofynion gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd.

- Ysbyty Llandochau yw'r ail ysbyty fwyaf yng Nghymru ac mae wedi'i leoli yn y pentref. Mae llawer o'r materion a'r problemau y mae cynrychiolydd lleol a Chyngor Cymuned Llandochau yn delio â nhw yn ymwneud â'r ysbyty, fel llif traffig uwch, staff ac ymwelwyr yn parcio ar ffyrdd preswyl, caniatâd cynllunio am estyniadau amrywiol wrth i'r ysbyty ehangu, ac ymgysylltiad y gymuned â rheolwyr yr ysbytai.

- Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi 300 o anheddau mewn tri lleoliad ar wahân yn y pentref. Mae cefn gwlad yn amgylchynu Llandochau, felly mae'r risg o orddatblygu mannau gwyrdd yn broblem gynyddol amlwg i'r pentref, yn enwedig o ystyried ei agosrwydd at Gaerdydd. Mae Cyngor Cymuned Llandochau yn wynebu'r gwrthdaro o gadw at nod Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru wrth warchod cefn gwlad a gwella bioamrywiaeth ac ecoleg a deall yr angen am fwy o dai yn ne Cymru. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar Cornerswell fel ardal sydd eisoes wedi'i hadeiladu gyda lle cyfyngedig ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr.

- Cornerswell yw’r fwyaf o'r ddwy ward, ac mae’n rhan o dref fwy Penarth, felly mae perygl y byddai'r materion sy'n effeithio ar Landochau yn cymryd sedd gefn i'r rheiny sy'n wynebu Cornerswell, gydag oedi posibl o ran mynd i'r afael â nhw, neu fethiant i fynd i'r afael â nhw o gwbl.

- Cyngor Cymuned Llandochau yw un o'r cynghorau llai mwyaf gweithgar ac effeithiol yng Nghymru. Mae ganddo'r capasiti a'r gallu i ddarparu ystod eang o wasanaethau i'r gymuned ac mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n dda gan ei thrigolion. Nid yw erioed wedi derbyn adroddiad archwilio ag amodau ynghlwm yn ei holl hanes ac mae bob amser yn dangos rhinweddau rheoli a llywodraethu ariannol cadarn.

- Ni ddylai Cymuned Llandochau gael ei amsugno i Ward Cornerswell/Penarth gan ei bod yn amlwg yn cefnogi ac yn cynnig gwasanaethau gwerthfawr i bentref Llandochau.

**Atodiad 1 – Ffin Cyngor Cymuned Llandochau**

